

Teifi Fyw: Pobl a Natur Gyda'i Gilydd

Living Teifi: People and Nature Together

Cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yw Teifi Fyw, sy'n anelu at adfer ac adfywio'r dirwedd hon trwy gyfuno tystiolaeth wyddonol â gwybodaeth leol, profiad byw a chysylltiad diwylliannol. Bydd yn ategu prosiectau a mentrau targedig eraill sy'n canolbwyntio ar reoleiddio a chyfrifoldebau statudol, gan fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n sail i fethiannau amgylcheddol.


Mae dalgylch afon Teifi yn ardal lle mae natur, treftadaeth a chymuned wedi'u cysylltu'n ddwfn, gan lunio diwylliant Cymru am genedlaethau. Bydd prosiect Teifi Fyw, trwy gyfrwng adrodd straeon, sgysiau wrth glwyd y fferm, a dylunio cydweithredol, yn sicrhau bod natur a threftadaeth wrth wraidd gwneud penderfyniadau, ac yn grymuso cymunedau i gymryd camau ystyrlon. Mae ymrwymiad i gydgyhyrchu wrth ei wraidd, gan sicrhau bod y rhai sy'n adnabod y dalgylch yn helpu i lunio ei ddyfodol. Mae Teifi Fyw yn dathlu bywyd, tir a llên gwerin yr afon, gan feithrin afon Teifi sy'n wydn ac yn ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pam afon Teifi, a pham nawr: afon sydd â'i gwreiddiau yn nhreftadaeth fyw Cymru

Mae afon Teifi yn fwy na dŵr yn troelli drwy dirwedd; mae'n edau fyw o hunaniaeth a gwytnwch Cymru. I lawer, mae iddi hiraeth, mae'n ganolig ac yn famwlad i ddiwylliant, iaith a thir Cymru. Mae afon Teifi yn cario canrifoedd o straeon, traddodiadau a chyfoeth ecolegol wrth lifo o Fynyddoedd Cambria i'r môr ym Mae Aberteifi. Mae'n afon sydd wedi llunio cymunedau, wedi cynnal bywoliaethau amaethyddol, ac wedi ysbrydoli cenedlaethau trwy ei harddwch a'i bioamrywiaeth.

Nid afon Teifi yw'r afon hiraef na'r mwyaf adnabyddus yng Nghymru; mae afonydd eraill yng Nghymru fel afon Dyfrdwy neu afon Gwy yn aml yn taflu'r harddwch naturiol a geir yn afon Teifi i'r cysgod. Er ei fod yn dirwedd wledig ac amaethyddol o bwys, nid yw dalgylch afon Teifi mor gynhyrchol nac mor ddibynnol ar ffermio ag afonydd eraill yng Ngorllewin Cymru. Serch hynny, afon Teifi yw'r un sy'n gysylltiedig fwyaf â diwylliant a thraddodiadau Cymru, llawer ohonynt wedi diflannu mewn mannau eraill, ond sy'n parhau'n bresennol ar afon Teifi, megis y traddodiad o

bysgota mewn cwrwgl. Er bod afon Teifi a'i thirwedd yn wynebu heriau o'r tu fewn a'r tu allan, sy'n rhoi pwysau ar y tir a'r ymdeimlad cryf o ddiwylliant a threftadaeth sy'n gysylltiedig â thirwedd afon Teifi, mae'r cymunedau yn dymuno ein bod yn "Meddwl am afon Teifi, gweithredu dros afon Teifi". Dyma pam rydym wedi dewis gweithio yn nalgylch afon Teifi a datblygu prosiect Teifi Fyw nawr, gan fod yr amser yn mynnu hynny.



Mae traddodiadau tir a dŵr, sydd wedi'u gwreiddio mewn ffermio, pysgota a gwarchodaeth tirwedd, yn gynhenid i hunaniaeth genedlaethol Cymru, ac wedi'u plethu'n ddwfn â thirwedd afon Teifi. Ar hyd afon Teifi, mae arferion traddodiadol wedi llunio bywoliaeth a thirweddau; o ffermio mynydd i pysgota cwrwgl. Mae'r ffyrdd hyn o fyw, a oedd unwaith yn ganolog i rythm y rhanbarth, yn dal i gael eu cofio, er eu bod ar fin mynd yn angof. Maent yn parhau yn y straeon, yn yr iaith, ac yn arbenigedd tawel y rhai sy'n dal i gario'r wybodaeth, yn aros i gael eu hadfywio a'u hailddychmygu mewn ymateb i bwysau heddiw. Mae hwn yn gyfle unigryw i ddod â gwarcheidwaid y tir, yr amgylchedd a'r diwylliant ynghyd i blethu dyfodol disgleiriach, wedi'i seilio ar draddodiad a hiraeth a ddeilliodd o'r afon a'r dirwedd y mae wedi'i lunio.

O blith afonydd y DU, mae afon Teifi yn sefyll allan nid yn unig am ei harwyddocâd ecolegol ond am ei dyfnder diwylliannol a'i threftadaeth fyw. Mae'n afon o sewin a seintiau, o feirdd a chyfranogiad, o gymuned a chysylltiad. Mae buddsoddi yn afon

Teifi yn gyfystyr â buddsoddi mewn gweledigaeth o Gymru lle mae natur a diwylliant yn ffynnu gyda'i gilydd.

Ein gweledigaeth

Rydym yn gweld dyfodol i ddalgylch afon Teifi lle mae ...

... lleisiau afon Teifi, ei chymunedau, y data gwyddonol ac ymarferwyr amgylcheddol yn dod ynghyd i arwain ar reolaeth yr afon.

... pobl yn teimlo'n agos at afon Teifi a'i thirwedd, sydd â gwerth cynhenid, yn dathlu prosesau naturiol, yn gyfoethog o ran bywyd gwylt, ac yn wydn yn ecolegol.

... gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y dalgylch rôl allweddol wrth ddiogelu iechyd afon Teifi, a lle maent yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i barhau i roi afon Teifi wrth wraidd yr hyn a wnânt.

... mae cymunedau wedi'u cyfarparu â'r offer i harneisio pŵer natur afon Teifi, gan arwain at economi wledig gref.



Partneriaid

Mae partneriaid cyflawni'r cyfnod datblygu yn cynnwys y canlynol:

- UNESCO, wedi'i leoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Mentera
- Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio
- Canolfan Ymchwil Amaethyddiaeth, wedi'i lleoli ar Gampws Gelli Aur Coleg Sir Gâr
- Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru

Mae'n debygol y bydd y bartneriaeth graidd yn ymestyn wrth i ni weithio drwy'r cyfnod datblygu, gan nodi ac archwilio camau gweithredu ar gyfer y cyfnod cyflawni.

Nodau

Yn ystod datblygiad a chyflwyniad Teifi Fyw byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gwrando ar **leisiau afon Teifi** gan ddibynnu ar y corws cytbwys hwn o'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y dalgylch, data gwyddonol, rhwydwaith eang o ymarferwyr gwybodus a lleisiau'r afon ei hun, i hyrwyddo'r prosiect.
- Hwyluso **Cyswllt Natur Afon Teifi** i'r bobl, trwy adfer cysylltiadau ffisegol ar draws tirwedd afon Teifi sy'n cefnogi prosesau naturiol yr afon ac yn galluogi symudiad rhywogaethau, gan gryfhau gwytnwch ecolegol.
- Cefnogi pobl leol i ddod yn **warcheidwaid afon Teifi**, drwy gydnabod eu hól troed ar yr afon, a rhoi natur a threftadaeth wrth wraidd dewisiadau bob dydd a chynllunio hirdymor.
- Grymuso cymunedau trwy greu **Teifi sy'n barod i fuddsoddi** sydd â'r ddealltwriaeth, y weledigaeth a'r offer sy'n angenrheidiol i gefnogi ffyniant economaidd y dalgylch.

Lleisiau afon Teifi

Mae tystiolaeth o bob math yn ffurfio sylfaen prosiect Teifi Fyw. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob cymuned gan sicrhau integreiddio. Bydd mecanweithiau ymgysylltu yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno'n briodol i wahanol gynulleidfaoedd. Wrth wraidd y cyfan mae'r ymrwymiad i weithio ar draws materion, heriau a chyfleoedd, gan greu rhwydwaith i bobl gydweithio, dysgu oddi wrth ei gilydd, a myfyrio ar eu cynnydd. Nod y prosiect yw cyflawni nid yn unig canlyniadau pendant, ond hefyd meithrin gallu trwy hyfforddiant, mentora a chyfnewid traws-sector, gan annog cyfnewid syniadau a chryfhau gwytnwch sefydliadol.

Bydd llais yr afon, ei rhywogaethau, a'i hecosystemau ar draws y dirwedd yn cael eu cofnodi trwy fonitro ffurfiol a chasglu data. Pan gyfunir y mewnwleidiadau ecolegol hyn â phrofiadau bywyd a safbwyntiau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn nalgylch afon Teifi, byddwn yn creu tystiolaeth bwerus ac integredig. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth gyfunol hon i lywio penderfyniadau'n well a blaenoriaethu camau gweithredu i adfer natur, treftadaeth, a'r prosesau hanfodol y mae bywyd yn y dalgylch yn dibynnu arnynt.

Bydd lleisiau afon Teifi yn gwneud y canlynol:

1. Llywio pob llif gwaith, gan gyfoethogi'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethu, yn seiliedig ar ddull cyfunol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
2. Gweithio gyda chynulleidfaoedd gwahanol a chymhwyso mecanweithiau ymgysylltu amrywiol sy'n briodol i'r gynulleidfa i nodi ffocws cyflawni, a chatau dilynol yn y cyfnod cyflawni (gan gynnwys beth, ble a pham).
3. Datblygu rhaglen monitro a gwerthuso i gefnogi pob ffrwd waith.

Cyswllt Natur Afon Teifi

Yn hanesyddol byddem yn cysylltu'n well â chydbwysedd a rhythm natur, gan ddeall ein lle yn yr ecosystem. Chwalwyd hyn, gan adael cynefinoedd wedi'u darnio, wedi'u datgysylltu oddi wrth natur ac oddi wrth ein rôl ni wrth amddiffyn ei chydbwysedd. Mae angen ailgysylltu â'n treftadaeth naturiol, â'r tirweddau a ysbrydolodd farddoniaeth a mytholeg sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn niwylliant Cymru, er mwyn ailystyried y cydbwysedd â natur a deall yn well sut rydym yn ddibynnol ar ddŵr, hamdden, bwyd a llesiant.

Mae ein tirwedd a'i hecosystemau wedi'u darnio ac wedi'u datgysylltu; boed o ganlyniad i amaethyddiaeth dwys, olion ein hanes mwyngloddio neu'r amgylchedd trefol, mae bylchau yn ein tirwedd y mae angen eu hadfer er mwyn natur, ond hefyd

er mwyn y tir yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo. Ein nod yma yw adfer a chysylltu ecosystemau iachach, bioamrywiaeth gynyddol, a stiwardiaeth gyhoeddus gryfach.

Bydd Cyswllt Natur Afon Teifi yn gwneud y canlynol:

4. Datblygu rhwydweithiau natur daearol ar draws y dalgylch, gan gefnogi'r cylch dŵr, natur, adferiad a chydnerthedd y dirwedd.
5. Creu afon iachach, mwy cysylltiedig ac amrywiol drwy adfer cynefinoedd yn y sianel, coridorau glannau afonydd a llwybrau dŵr.
6. Sicrhau bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn nalgylch afon Teifi yn deall pwysigrwydd ein treftadaeth naturiol a'n dibyniaeth arni, a rhoi natur wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Gwarcheidwaid afon Teifi

Mae angen help llaw ar natur, ac mae angen i ni adfer y prosesau a'r swyddogaethau naturiol a oedd unwaith yn amddiffyn ac yn gwneud byw ar y tir yn gynaliadwy. Mae afon Teifi wedi bod yn ffynhonnell adnoddau naturiol ers miloedd o flynyddoedd, gan greu diwylliant cryf sy'n gysylltiedig â'r afon. Dylai'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn nalgylch afon Teifi gael y grym i arwain y dull hwn gyda natur, treftadaeth a chynaliadwyedd wrth wraidd y broses.

Mae gwarchodwyr afon Teifi yn fenter graidd o fewn prosiect Teifi Fyw, a gynlluniwyd i gefnogi a symud rheolwyr tir lleol, trigolion a busnesau fel gwarchodwyr y dalgylch. Mae'n cydnabod y rôl hanfodol y mae'r unigolion hyn yn ei chwarae wrth lunio'r dirwedd, ac yn anelu at sicrhau bod ganddynt yr offer, yr wybodaeth a'r gefnogaeth i wneud penderfyniadau sydd o fudd i'r economi wledig a'r amgylchedd, ac i roi mwy o wytnwch i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yno mewn hinsawdd sy'n newid.

Bydd gwarcheidwaid afon Teifi yn gwneud y canlynol:

7. Nodi a chynllunio ymyriadau ar draws y dirwedd wledig a fydd yn cefnogi busnesau ffermio a chynhyrchiant, gan leihau'r effaith amgylcheddol i'r lleiafswm, trwy addasu i'r hinsawdd, ffermio adfywiol, a gwella iechyd afonydd.
8. Deall cysylltiadau cymunedol â llygredd gwasgaredig trefol, rhyngweithio pobl a busnesau ac effaith ar yr amgylchedd dŵr. Creu perchnogaeth.
9. Mynd i'r afael ag effaith weddilliol hirdymor sy'n deillio o fwyngloddiau segur drwy atebion ar sail natur ac ymgysylltu.

Teifi sy'n barod i fuddsoddi

Bydd Teifi sy'n barod i fuddsoddi yn gosod y sylfaen ar gyfer dalgylch gwydn, sy'n edrych ymlaen at y dyfodol, lle mae cynllunio strategol, canlyniadau mesuradwy, a

chapasiti lleol yn dod at ei gilydd i ddenu a chynnal buddsoddiad ystyrion. Y nod yw adeiladu'r sylfeini ar gyfer buddsoddiad hirdymor, cynaliadwy yn nalgylch afon Teifi, a fydd yn fodel trosglwyddadwy ar gyfer lleoedd eraill yng Nghymru.

Mae'r fenter strategol hon wedi'i chynllunio i osod y dalgylch fel model ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu ac sy'n effeithiol mewn atebion ar sail natur, rheoli tir cynaliadwy, a chydnerthu cymunedol. Drwy ddull integredig lleisiau afon Teifi, a thrwy wneud blaenoriaethau ecolegol a chyfalaf naturiol yn gydnaws â chyflleoedd economaidd, bydd y llinyn hwn o'r prosiect yn sicrhau bod cyllid yn y dyfodol boed yn gyhoeddus, preifat neu gymysg yn cael ei gyfeirio i greu'r budd mwyaf i bobl, natur a threftadaeth.

Bydd Teifi sy'n barod i fuddsoddi yn gwneud y canlynol:

10. Datblygu map a dull strategol, wedi'u hasesu ar gyfer ble a beth yw'r lle gorau i wario arian er mwyn creu manteision lluosog ac adeiladu ar ddiffygion cyfalaf naturiol.
11. Datblygu fframwaith cysylltiedig â monitro ar gyfer cyflawniad a hyder yn y systemau credyd.
12. Ein helpu ni i ddeall yn well y cyflleoedd a'r bylchau sydd mewn sgiliau gwyrdd, swyddi ac effeithlonrwydd yn nalgylch afon Teifi er mwyn cyflawni'r model hirdymor ataliol ac addasol sy'n seiliedig ar natur, sy'n ofynnol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Allbynnau ar gyfer prosiect Teifi Fyw

Afon Teifi mwy cysylltiedig a gwydn – dalgylch Teifi iachach ac amrywiol, gyda'r afon yn fwy gwydn, sy'n gallu ymdopi â phwysau o bob rhan o'r dalgylch a heriau newid hinsawdd.

Allbynnau diriaethol:

- Atebion ar sail natur trwy gyflawni ymyriadau yn strategol sy'n gwella cysylltedd cynefinoedd, cyfalaf naturiol a chydnerthedd amgylcheddol.
- Gwytnwch coridor glannau afon trwy adfer prosesau naturiol a chynefinoedd ffisegol, plannu glannau afonydd, ailgysylltu gorlifdiroedd, gwella cynefinoedd yn y sianel.
- Ymyriadau iechyd dŵr dalgylch – adfer prosesau naturiol yn y cylch dŵr ledled y dalgylch, o iechyd y pridd i gynyddu ymdreiddiad, trwy leiniau clustogi, plannu gyda rhediad y tir, rheoli gwrychoedd.

- Monitro ecolegol, arolygon sylfaenol ac ailadroddus, gwyddoniaeth dinasyddion (e.e. Riverfly, Outfall Safari).
- Treialon ar ffermydd; pump o dreialon amaethyddol adfywiol i brofi arferion sy'n addas i'r hinsawdd.

Mae pobl yn teimlo eu bod yn warcheidwaid y Teifi, trwy ymrymuso'r gymuned – cysylltiad cymunedol dyfnach â lle, gyda llywodraethu cynhwysol a chyfranogiad gweithredol mewn adfer a gwneud penderfyniadau sy'n rhoi blaenoriaeth i natur a'r gymuned.

Allbynnau diriaethol:

- Digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned; ymgysylltu plwraliaethol a chydgyhyrchu trwy gyfres o wyliau afonydd, teithiau cerdded adrodd straeon, digwyddiadau diwylliannol, prosiectau hanes llafar.
- Addysg ac allgymorth; rhaglenni ysgolion, pencampwyr afonydd, gweithdai afonydd cymunedol.
- Llywodraethu cyfranogol; fforymau gwybodaeth cymunedol, blaenoriaethau adfer a gydgyllluniwyd, corff cynrychioliadol "Llais yr Afon".
- Allbynnau creadigol; cerddi, caneuon, gosodiadau, mapiau cyfranogol ac archifau wedi'u comisiynu i'w rhannu mewn gwyliau afonydd.
- Hyfforddiant a meithrin gallu; uwchsgilio partneriaid a rhanddeiliaid ar ymgysylltu a hwyluso, cyfathrebu dwyieithog, gwrando moesegol.

Mae cynllun strategol sy'n dweud bod afon Teifi yn barod i fuddsoddi – economi wledig adfywiol, sy'n barod i fuddsoddi, sy'n cyd-fynd ag adferiad ecolegol ac adeiladu cyfalaf naturiol â ffyniant hirdymor a chreu swyddi gwyrdd.

Allbynnau diriaethol:

- Datblygu fframwaith buddsoddi; map strategol, prospectws buddsoddi dwyieithog, siarter llywodraethu.
- Cyfnod buddsoddi arbrofol; trafodion cychwynnol i ddangos potensial etifeddiaeth a denu cyllid yn y dyfodol.
- Offeryn cymorth gwneud penderfyniadau; platfform gofodol i arwain buddsoddiadau sy'n seiliedig ar natur ac aliniad cyllid.
- Hyfforddiant sgiliau gwyrdd; rhaglenni ar gyfer crefftswyr, hwyluswyr, a gweithwyr proffesiynol cyllid mewn sectorau sy'n seiliedig ar natur.

- Cyfrwng at ddibenion arbennig; cymdeithas buddion cymunedol i reoli buddsoddiadau a sicrhau tryloywder.
- Adeiladu ffermydd gwydn; 50 cynllun fferm Teifi Fyw sy'n integreiddio gwytnwch ecolegol, hinsawdd ac economaidd.

Gweledigaeth etifeddol

Mae Teifi Fyw yn ceisio cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ynghyd ag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod datblygu dwy flynedd, ac yna cyfnod cyflawni o bum mlynedd. Bydd y prosiect hwn yn cyflawni y tu hwnt i gylchoedd gwaith craidd a dyletswyddau statudol ar y cyd y partneriaid, gan greu ffyrdd newydd o weithio ar y cyd ac yn raddol sy'n gwrando'n well ar dystiolaeth gyfunol ac yn gweithredu arni.



Yn allweddol i'r prosiect y mae ymgorffori lleisiau afon Teifi ym mhob haen o weithredu, o ddata i ddeialog. Bydd Teifi Fyw yn llunio dalgylch sy'n fywiog yn ecolegol, yn cael ei ddathlu'n ddiwylliannol, ac yn wydn ar draws dimensiynau o ran cymdeithas, yr economi a'r hinsawdd. Bydd yn enghraifft fyw o sut y gellir harneisio treftadaeth a natur mewn dyfodol a ddiffinnir gan obaith, cysylltiad a newid trawsnewidiol.



Mae Teifi Fyw yn fwy na phrosiect, mae'n gatalydd ar gyfer newid hirdymor, sy'n seiliedig ar le. Nod y prosiect yw gadael gwaddol o leisiau lleol grymus, ecosystemau gwydn a phartneriaethau cryfach trwy fuddsoddi mewn treftadaeth, natur a chymuned. Bydd y sylfeini a osodwyd trwy gynllunio cynhwysol, dysgu ar y cyd, a darpariaeth addasol yn cynnal dalgylch Teifi ffyniannus am genedlaethau i ddod. Bydd yr etifeddiaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y ffordd y mae cymunedau, ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn dod at ei gilydd i arwain rheolaeth o'r afonydd; yn y ffordd y mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â thirwedd o werth cynhenid a chyfoeth ecolegol; ac yn y ffordd y mae pŵer naturiol yr afon yn parhau i gynnal economi wledig fywiog. Bydd effaith Teifi Fyw yn parhau i'w weld yn y perthnasoedd y mae'n eu meithrin, a'r capasiti y mae'n ei adeiladu, gan sicrhau bod afon Teifi wrth wraidd bywyd y dalgylch.